

Briff Swyddog Prosiect Tech Tyfu

Hwb arloesi Tech Tyfu yw'r cam mawr cyntaf i ymgorffori ffermio fertigol o fewn economi Cymru, ac mae'r cyfleuster newydd ym Mharc Gwyddoniaeth Menai (M-Sparc) yn ymroddedig i ddatblygu ac arddangos arloesedd mewn ffermio fertigol.

Mae prosiect Hwb Tech Tyfu yn ceisio goresgyn y rhwystrau presennol i dyfu cynnyrch ffres yng ngogledd Cymru trwy ddatblygu cadwyni cyflenwi, adeiladu sgiliau, addysgu a hysbysu'r cyhoedd, y gymuned ffermio a gweithwyr proffesiynol am ffermio fertigol a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig.

Bydd y prosiect yn arddangos technoleg ffermio fertigol ar raddfa fasnachol ac yn cynnig lle ac adnoddau i dyfwyr newydd a phresennol dreialu dulliau tyfu a phrofi marchnadoedd ar gyfer cynyddau newydd. Gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid academiaidd, diwydiant ac addysg, bydd yr Hwb yn datblygu rôl Rhyngryd y Pethau (IoT) ac awtomeiddio mewn amaethyddiaeth mewn amgylchedd wedi'i reoli, arloesi o ran ffyrdd, dulliau a thechnegau newydd ynghyd ag optimeiddio a phrofi beta technoleg ffermio fertigol newydd. Ein gweledigaeth yw bod yr Hwb yn dod yn esiampl o sut i redeg uned dyfu ddiogel, effeithlon a proffidiol i ysbrydoli tyfwyr newydd a phresennol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae Tech Tyfu'n grŵp o bum prosiect sy'n cael ei redeg gan Menter Môn, sy'n arloesi gyda rôl ffermio fertigol yng ngogledd Cymru, sydd eisoes wedi cynnwys sefydlu grŵp tyfwyr ac archwilio cadwyni cyflenwi ar gyfer cynnyrch a ffermir yn fertigol. Mae'r gwaith hwn yn parhau ond bydd nawr yn cynnwys gweithio gydag ysgolion lleol i integreiddio ffermio fertigol i'r cwricwlwm newydd, ehangu cadwyni cyflenwi, dylunio atebion ffermio fertigol pwrpasol ar gyfer strydoedd mawr lleol a'r hwb arloesi.

Derbyniodd Tech Tyfu Hwb gyllid gan Gynllun Cyflymu Busnes, Arloesi a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru (BITES).

Y rôl

Rydym yn awr yn edrych i benodi swyddog prosiect llawn amser am gyfnod o ddwy flynedd i weithredu'r prosiect Hwb Tech Tyfu, rheoli'r cyfleuster o ddydd i ddydd a sicrhau deilliannau'r prosiect. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â thîm gweithredu Tech Tyfu, a bydd yn bennaf gyfrifol am redeg prosiect Hwb Tech Tyfu. Bydd hyn yn cynnwys cyflawni gosodiad a natur ymarferol y seilwaith digidol a chasglu a dadansoddi data sy'n berthnasol i'r ffermydd fertigol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am, ac yn cyfrannu at, brosiectau a thasgau a neilltuwyd fel rhan o'r Hwb a'r prosiect Tech Tyfu ehangach, a fydd yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau, lledaenu canlyniadau'r prosiect trwy gyhoeddiadau ac yn galluogi'r cyhoedd i oruchwylio rhediad y cyfleuster o ddydd i ddydd, rheoli offer a chyflawni tasgau gweithredol, gweithio'n annibynnol a chyda chontractwyr i ymgysylltu.

Rydym yn chwilio am aelod tîm brwdfrydig, ymroddedig a galluog i gyflawni'r prosiect hwn gyda ni. Rydym yn chwilio am rywun sy'n gweld gwerth yn yr hyn yr ydym yn ei wneud, a bydd yn dod â chefnidir o sgiliau a phrofiad i'n helpu i gyflawni ein nodau. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn ymgeiswyr sy'n gallu ysgrifennu'n dda ac sydd â sgiliau technoleg. Bydd llawer o'r gwaith yr ydym yn rhagweld ei wneud yn ymwneud ag optimeiddio, profi beta a datblygu technoleg ffermydd fertigol, a fydd yn cynnwys integreiddio Deallusrwydd Artiffisial(AI)/dysgu peiriannau i ffermio fertigol i helpu i wneud penderfyniadau, awtomeiddio amrywiol brosesau

allweddol ac efallai datblygu prosesau adnabod plâu a phathogen a phrosesau rheoli yn seiliedig ar AI. Rydym yn chwilio am aelod o dîm fydd yn cynnig croeso braf i'r Hwb ac yn ei wneud yn ofod dymunol ar gyfer tyfwyr, staff a phartneriaid i gydweithio. Dylai'r ymgeisydd delfrydol ddangos profiad o arwain tîm trwy waith, chwaraeon, gwirfoddoli, neu fynd i'r afael â her.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â staff Menter Môn, sy'n un o brif gyflogwyr y rhanbarth, ac yn cynnig awyrgylch gweithle croesawgar a llawer o fuddion staff. Trwy fod yn aelod o dîm prosiect Tech Tyfu, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn dod yn rhan o gymuned fywiog Parc Gwyddoniaeth Menai, sy'n cynnwys arloeswyr, gwyddonwyr, entrepreneuriaid a gweithwyr proffesiynol blaenllaw'r rhanbarth, gyda llawer ohonynt yn cyfrannu i raddau amrywiol i'r prosiect Tech Tyfu.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â luke@mentermon.com

www.facebook.com/mentermon

www.twitter.com/MenterMon

www.facebook.com/techtifyu

www.twitter.com/TechTyfu